



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaethau Gofal Cartref Gwynedd - Pobl Hŷn, Byw â Chymorth a DERWEN

**Tŷ Frondeg
Caernarfon
LL55 1PS**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

8 Gorffennaf 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Gwasanaethau Gofal Cartref Gwynedd - Pobl Hŷn, Byw â Chymorth a DERWEN

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Crynodeb

Mae'r arolygiad hwn wedi canolbwyntio ar rannau'r gwasanaeth a ddarperir i oedolion, gan gynnwys gofal cartref a byw â chymorth. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn derbyn gofal dibynadwy yn unol â'u hanghenion gofal. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae staffio a recriwtio wedi'u heffeithio'n sylweddol gan effeithiau'r pandemig ac mae hyn yn cael effaith andwyol ar nifer y staff gofal sydd ar gael i ddarparu rhan gofal cartref y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r darparwr yn buddsoddi cyllid ac amser yn y gwasanaeth ac mae'n gweithio tuag at ailstrwythuro i liniaru materion staffio ac i hyrwyddo gwelliant a datblygiad parhaus y gwasanaeth.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn derbyn gofal sydd wedi'i gynllunio ar sail anghenion unigol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac y gwrandewir arnynt. Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau gofal, ar ffurf electronig a phapur. Mae'r cofnodion hyn yn drefnus, yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth o'r staff gofal a'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau partner. Dylai'r darparwr sicrhau ei fod yn eirioli dros y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, drwy weithio gyda landlordiaid i sicrhau bod yr holl offer trydanol yn cael eu gwirio a'u cynnal a'u cadw.

Mae'r bobl mor iach ag y gallant fod. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol. Gwelsom y bobl yn cael eu cynorthwyo i baratoi prydau bwyd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn anelu at alluogi'r bobl i gael trefn ddyddiol unigol. Roedd y sampl o ffeiliau gofal a adolygwyd gennym yn dangos bod cynlluniau gofal yn cael eu cynllunio ar sail anghenion a dewis unigol. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu parhaus ac effeithiol rhwng y staff gofal a'r rheolwyr. Gwelsom dystiolaeth fod rhai o'r gwasanaethau byw â chymorth yn treialu 'system ap' lle mae'r staff gofal yn cofnodi ac yn diweddarau tasgau unigol a gyflawnir drwy gydol y dydd. Mae hyn yn galluogi goruchwyliaeth barhaus gan y rheolwyr. Mae cynlluniau i sefydlu'r system hon ym mhob rhan o fyw â chymorth y gwasanaeth.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae cofnodion gofal yn dangos bod asesiadau risg priodol yn cael eu cyflwyno yn unol ag angen a risg unigol. Mae'r staff gofal yn cael eu hyfforddi mewn meysydd i sicrhau eu bod yn gallu diogelu pobl; mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant mewn diogelu, cymorth cyntaf a symud a thrin. Mae polisïau ar waith i gyd-fynd â'r hyfforddiant. Mae angen gwella'r cyfathrebu rhwng y staff gofal a rheolwyr. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn bwriadu datblygu gweithdrefnau i gynnwys mwy o fanylion cam wrth gam yn eu polisïau, er mwyn sicrhau y ceir mwy o eglurder a goruchwyliaeth ac i gynorthwyo cyfathrebu.

Anogir y bobl i gymryd rhan ac i ddatblygu. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cefnogi'r bobl i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r staff yn galluogi'r bobl i gael cyfleoedd i gymryd rhan a bod yn annibynnol. Mae'r bobl yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt a chadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Anogir y staff gofal i ddatblygu eu hunain ac i fod yn gyfrifol.

Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn cael eu datblygu gyda'r bobl o amgylch eu hanghenion unigol cyn iddynt dderbyn cymorth. Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion, sy'n dangos bod cynlluniau personol yn fanwl, yn ystyried dymuniadau a dewisiadau'r bobl, ac yn ystyried risgiau unigol, wrth alluogi annibyniaeth. Mae gan y bobl fynediad at eu cofnodion, sy'n cael eu llofnodi gan y bobl a'r staff i ddangos eu bod yn cytuno ac yn deall y cynlluniau. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu diwygio a'u diweddarau pan fo anghenion gofal yn newid a bod camau'n cael eu cymryd i ddiwallu anghenion y bobl.

Mae'r staff yn darparu gofal a chymorth sydd wedi'i gynllunio trwy ymgynghori â'r bobl, eu teuluoedd, eu ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Mae ffeiliau gofal yn dangos bod dymuniadau personol, dyheadau ac arferion yn flaenoriaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hapus; cânt eu cefnogi gan y staff gofal cyson sy'n adnabod y bobl yn dda. Ymgorfforir asesiadau risg unigol ac anghenion arbenigol wrth gynllunio gofal unigol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau eraill i ddiwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau personol yn dangos bod gan y bobl fynediad parhaus a rheolaidd at y gwasanaethau gofynnol. Gwelsom fod atgyfeiriadau a chyfathrebu yn amserol ac yn briodol. Cynhyrchir asesiadau risg priodol a chyfredol yn unol ag anghenion unigol. Cymerir camau i ymateb i risg unigol, megis newidiadau i'r amgylchedd neu fwy o amser gofal. Mae'r holl gofnodion yn glir ac yn drefnus i'r staff gofal gael mynediad atynt. Mae'r darparwr yn cydnabod yr effaith andwyol y mae'r pandemig wedi cael ac yn ei chael ar adnoddau, sy'n gysylltiedig â darparu gofal, gan gynnwys staffio; mae'r darparwr yn cymryd camau i wella recriwtio a staff cymorth. Fodd bynnag, mae angen i'r darparwr sicrhau bod cyfathrebu effeithiol a phrydlon yn digwydd i sicrhau bod gwiriadau diogelwch offer trydanol yn digwydd; mae'r rhain wedi'u gohirio oherwydd y pandemig. Mae gan y rhannau byw â chymorth a rhannau gofal cartref y gwasanaeth fesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol, a chanddynt brosesau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff gofal yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau. Gwelsom y staff gofal yn gwisgo ac yn defnyddio offer diogelu personol yn gywir.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr oruchwyliaeth effeithiol o ran elfen byw â chymorth y gofal a ddarperir. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir yn y ddwy ran yn y gwasanaeth y gwnaethom edrych arno yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant i'w cynorthwyo yn eu rôl. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus, bod yr hyfforddiant a'r cymorth gan y rheolwyr yn eu galluogi i gyflawni eu rôl. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn enwedig elfen byw â chymorth y gwasanaeth, yn cael eu hannog i gyfrannu syniadau, dewisiadau ac adborth am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Cesglir gwybodaeth gan y bobl, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol; defnyddir yr wybodaeth hon i fonitro, adolygu a gwella'r ddwy ran o'r gwasanaeth. Gwelsom fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau gan yr unigolyn cyfrifol. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn eu lle, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, o ran elfen gofal cartref y gwasanaeth, canfuom ddiffyg manylder i ddarparu canllaw cam wrth gam i roi gwybodaeth a chyfarwyddiadau i'r staff gofal a'r rheolwyr os bydd digwyddiadau penodol. Mae goruchwyliaeth gofal yn amserol ac yn effeithlon, er i ni ganfod bod angen mwy o eglurder a manylder ar y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r rheolwyr; mae angen mecanweithiau ar y gwasanaeth ar gyfer gwella trwy wersi a ddysgwyd. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant y bobl mewn perygl ac rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae gan y darparwr oruchwyliaeth o'r trefniadau ariannol a buddsoddiadau yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r pandemig wedi cael effaith andwyol ar lefelau staffio, sydd, yn ei dro, wedi effeithio ar y gwasanaeth ac argaeledd staff gofal i gynnal gwiriadau o'r bobl, lle bo angen. Mae adroddiadau rheolwyr yn tystio i ymgyrch recriwtio barhaus i gynyddu lefelau staffio ar gyfer rhan gofal cartref y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth Byw â Chymorth ar hyn o bryd yn y camau cychwynnol o dreialu'r defnydd o 'ap' ar gyfer cynlluniau personol. Mae hyn yn galluogi'r bobl a'r staff gofal i gynllunio tasgau / gweithgareddau dyddiol ar gyfer unigolion, tra gall y rheolwyr fonitro a chefnogi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu buddsoddi yn y dull hwn o gynllunio, cofnodi a monitro gofal, oherwydd pa mor llwyddiannus y mae'r dull hwn wedi bod yn ôl y bobl, y staff gofal a'r rheolwyr. Eglurodd y rheolwyr gynlluniau ar gyfer ad-drefnu sut y bydd yr ardaloedd daearyddol yn cael eu gosod allan. Nod hyn yw galluogi rheolaeth fwy effeithiol o'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn recriwtio ac yn cyflogi staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae gan staff wiriadau'r gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyfredol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Gwelsom fod lefelau staffio yn y rhan byw â chymorth o'r gwasanaeth yn gadarn, yn gyson ac mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal, yn y ddwy ran o'r gwasanaeth, wedi gweithio gyda'r gwasanaeth ers deng mlynedd neu fwy. Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi cael anhawster recriwtio a chadw staff ers dechrau'r pandemig. Maent yn cydnabod bod hyn yn effeithio ar ddarpariaeth ac ansawdd y gwasanaeth. Rydym wedi canfod bod diffyg staffio wedi effeithio ar ddarpariaeth ac ansawdd y gwasanaeth, lle nad yw'r staff gofal wedi bod ar gael i gefnogi pobl pan fo angen. Mae ffeiliau'r staff yn nodi bod staff yn cael sesiynau sefydlu, a chynhelir goruchwyliaeth yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb pellach.

Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
21	<p>Mae angen i'r darparwr:</p> <p>Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng staff gofal a rheolwyr.</p> <p>Sicrhau bod cofnodion cyfathrebu yn cynnwys gwybodaeth bwysig o ran amserlenni.</p> <p>Sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a'u gwirio wrth aros am gymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, e.e. aros am ambiwlans.</p> <p>Sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu cymorth i bobl pan fo angen.</p>	Newydd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes / Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 26/10/2022